

1. Consider asking a member of staff to be your setting's Welsh Language lead. The role could involve the planning of activities, sourcing Welsh or bi-lingual materials, arranging training courses for staff to attend and to keep momentum going!
2. Draw on the knowledge and skills from all those involved in your Setting. Ask the children what Welsh phrases they may be learning in School or at home. Are any members of staff able to share their knowledge of the language - however basic it may feel? Do you have any parents who are Welsh speakers and would they be able to help out in any way? Don't forget to ask members of the community or even School staff if you are based in a School if they can help?
3. Use bilingual signage and displays wherever possible. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs have some colourful posters you can display at your Setting which includes the Seasons and Weather, Fruit and Vegetables, the Welsh Alphabet and our latest Welsh Now in a Minute posters and You Tube videos. All can be found within our Members area <https://www.clybiauplantcymru.org/resources.asp>
4. Include and encourage the use of Welsh books and games. Having them readily available for children to pick up will not only increase their use of the language but will support use of the Welsh language outside of the classroom. Many group games can be adapted quite easily.
5. Introduce a Welsh ffrindiau/friend in the form of a toy or a puppet that visits your Setting regularly for a 'Welsh only hour' and when placed on the shelf or at the table only Welsh can be spoken. For a Christmas theme, we have developed a fun Welsh themed Cheeky Elf Advent Calendar Poster which can be downloaded from the Resources area of our website:  
<https://www.clybiauplantcymru.org/pdfs/Elf%20Poster.pdf>
6. Being a Playworker is the perfect opportunity to support children to use the Welsh language in a fun and unrestrictive way! Welsh phrases can be used freely in your Setting's daily routine such as good afternoon/prhynawn da or how are you/sut wyt ti? Think about the phrases you use frequently in your Setting – 'have fun', 'play outside', 'snack time' and try if you can, to only use the Welsh for these so that they slowly become second nature. Don't forget to ensure that any new children or staff understand the phrases you are using!
7. Planning a weekly theme may help to keep your Setting focused and on track to use the Welsh language more frequently. Themes could include sport, fitness, food, nature or the weather, then plan all of your Welsh language activities around that theme. Explore the different words and phrases within that theme and implement them into children's play. The children will no doubt have lots of suggestions for themes so don't forget to ask them what the themed weeks should be!
8. Does your Setting have a pet? If so, how about making it a Welsh speaking pet that can only be spoken to in Welsh - who isn't going to judge how well you pronounce the word or if it's 100% correct! Research has shown that some children find it easier to communicate with animals when judgement isn't a factor - reading to dogs for instance has become very popular and the same concept could be used when learning a language. It's all about confidence and having a go.
9. Learning about Wales and the Welsh heritage will help to spark an interest in learning the Welsh language. Welsh culture is rich with music, food, stories and poetry and outstanding scenery, and there are so many elements that you can draw upon for activity ideas in your setting. Consider using it within arts and crafts

activities, storytelling, music, dance, role play, cooking and snack making and games.

10. Encourage and support staff to sign up to a Welsh language course. Try and do it as a team if you can to support one another. You can search for a local course through the National Centre for Learning Welsh [www.learnwelsh.cymru](http://www.learnwelsh.cymru) or email [swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru)

Learning a language or trying something new is always a daunting task but it can be, and should be, lots of fun! Taking the first step and giving it a go is better than never trying at all. By learning as a Setting, staff, children, parents and communities can all help one another, support and encourage each other. Here are some Welsh awareness and celebratory days that may help you to get started:

<b>Some Useful Dates for your Diary:</b>
January 25 <sup>th</sup> – St Dwynwen's Day
February 5 <sup>th</sup> - Welsh Language Music Day
March 1 <sup>st</sup> – St David's Day
May 14 <sup>th</sup> – International Dylan Thomas Day
August – National Eisteddfod

1. Ystyriwch ofyn i aelod o'r staff i fod yn arweinydd iaith Gymraeg eich lleoliad. Gallai'r rôl olygu cynllunio gweithgareddau Cymraeg neu ddeunydd dwyieithog, trefnu cyrsiau hyfforddi i'r staff i'w mynychu ac i gadw'r momentwm i fynd!
2. Tynnwch o wybodaeth a sgiliau pawb sydd ynglŷn â'ch Lleoliad. Gofynnwch i'r plant pa ymadroddion Cymraeg y maent o bosibl yn eu dysgu yn yr ysgol neu gartref. A oes yna unrhyw aelodau o'r staff sy 'n gallu rhannu eu gwybodaeth o'r iaith - pa mor sylfaenol bynnag y gallai hynny deimlo? A oes gennych unrhyw rieni sy'n siaradwyr Cymraeg ac a fyddai'n gallu helpu mewn unrhyw ffordd? Peidiwch ag anghofio gofyn i aelodau o'r gymuned neu hyd yn oed staff yr ysgol - os ydych wedi eich lleoli mewn ysgol - a allan nhw helpu.
3. Defnyddiwch arwyddion ac arddangosiadau dwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs bosteri lliwgar y gallwch eu harddangos yn eich Lleoliad, sy'n cynnwys y Tymhorau a'r Tywydd, Ffrwythau a Llysiau, Yr Wyddor Gymraeg a'n posteri a fideos YouTube diweddaraf Welsh Now in a Minute. Ceir hyd i'r cyfan yn ein hardal Aelodau.  
<https://www.clybiauplantcymru.org/resources.asp>
4. Cynhwyswch ac anogwch y defnydd o lyfrau a gemau Cymraeg. Bydd eu cael nhw wrth law i'r plant eu codi nid yn unig yn cynyddu eu defnydd o'r iaith ond hefyd yn cefnogi'r defnydd o'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gellir addasu nifer o gemau grŵp yn eithaf hawdd.
5. Cyflwynwch ffrind/friend Cymraeg ar ffurf tegan neu byped sy'n ymweld â'ch Lleoliad yn rheolaidd am 'awr Cymraeg yn unig' a phan fydd ar y silff neu wrth y bwrdd dim ond Cymraeg a ellir ei siarad. Fel thema Nadoligaidd rydym wedi datblygu Poster Calendr Adfent, Coblyn Hy, y gellir ei lawrlwytho o ardal aelodau ein gwefan:  
<https://www.clybiauplantcymru.org/pdfs/Elf%20Poster.pdf>
6. Mae bod yn Weithiwr Chwarae'n gyfle perffaith i gefnogi plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ffordd llawn hwyl a chwbl rydd! Gellir defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rhydd yn rhan o drefn arferol eich Lleoliad, rhai megis prynhawn da/good afternoon neu sut wyt ti?/how are you?. Meddyliwch am y r ymadroddion yr ydych yn eu defnyddio'n aml yn eich Lleoliad - 'mwynhewch', chware y tu allan, 'amser byrbryd' a cheisiwch, os gallwch, ddefnyddio'r Gymraeg yn unig am y rhain er mwyn iddynt ddod yn ail natur yn raddol. Peidiwch ag anghofio i wneud yn siŵr fod unrhyw blant neu staff newydd yn deall yr ymadroddion y byddwch yn eu defnyddio!
7. Gall cynllunio thema wythnosol helpu i gadw ffocws eich lleoliad ac ar y llwybr iawn at ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach. Gallai'r themâu gynnwys chwaraeon, ffitrwydd, bwyd, natur neu'r tywydd, yna cynlluniwch eich holl weithgareddau iaith Gymraeg o gwmpas y thema honno. Edrychwch weld pa wahanol eiriau ac ymadroddion sydd i'w cael ar y thema honno a rhowch nhw ar waith yn chwarae'r plant. Bydd gan y plant, mae'n siŵr, lawer o awgrymiadau am themâu, felly peidiwch ag anghofio gofyn iddyn nhw beth ddylai'r wythnosau thema fod!
8. A oes gan eich Lleoliad anifail anwes? Os oes, beth am ei wneud yn anifail anwes sy'n siarad Cymraeg, ac mai dim ond yn Gymraeg y gellir siarad ag ef - un na fydd yn beirniadu pa mor dda yr ydych yn ynganu gair neu a yw'n gywir 100%! Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod rhai plant yn ei chael hi'n haws cyfathrebu ag anifeiliaid, lle nad yw beirniadaeth yn ffactor - er enghraifft, mae darllen i gŵn wedi dod yn boblogaidd iawn, a gellid defnyddio'r un cysyniad wrth ddysgu iaith. Y pethau canolog yw hyder a rhoi cynnig arni.
9. Bydd dysgu am Gymru a threftadaeth Cymru'n helpu i danio diddordeb mewn dysgu'r iaith Gymraeg. Mae diwylliant Cymru'n gyfoethog o gerddoriaeth, bwyd, storïau, barddoniaeth a golygfeydd eithriadol, ac mae cymaint o elfennau y gallwch dynnu

oddi wrthynt am syniadau am weithgareddau yn eich lleoliad. Ystyriwch ddefnyddio hyn mewn gweithgareddau celf a chrefft, dweud stori, cerddoriaeth, dawns, chwarae rôl, coginio, gwneud byrbrydau a gemau.

10. Anogwch a chefnogwch y staff i gofrestru ar gwrs iaith Gymraeg. Ceisiwch ei wneud fel tîm os oes modd i chi gefnogi eich gilydd. Gallwch chwilio am gwrs lleol drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [www.learnwelsh.cymru](http://www.learnwelsh.cymru) neu drwy e-bostio [swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru)

Mae dysgu iaith neu roi cynnig ar rywbeth newydd bob tro'n dasg sy'n codi braw, ond gall fod - a dylai fod - yn llawer o hwyl! Mae cymryd y cam cyntaf a rhoi cynnig arni'n well na pheidio â rhoi cynnig arni o gwbl. Drwy ddysgu fel Lleoliad, gall y staff, y plant, rhieni a chymunedau oll helpu, cefnogi ac annog ei gilydd. Dyma rai diwrnodau pan godir ymwybyddiaeth, neu pan ddathlir, y Gymraeg; efallai y byddant yn hwb i chi ddechrau arni.

<b>Dyddiadau Defnyddiol i'ch Dyddiadur:</b>
Ionawr 25 <sup>ain</sup> – Dydd Santes Dwynwen
Chwefror 5 <sup>ed</sup> - Diwrnod Cerddoriaeth Iaith-Gymraeg
Mawrth 1 <sup>af</sup> – Dydd Gŵyl Dewi
Mai 14 <sup>eg</sup> – Diwrnod Rhyngwladol Dylan Thomas
Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol